

Suzy Davies AS  
Comisiynydd

2 Chwefror 2021

Annwyl Suzy,

## Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Gweithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cyhoeddi ei adroddiad ar ei ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol. Wrth i ddiwedd y Bumed Senedd agosáu, roedd Aelodau'r Pwyllgor yn teimlo ei bod yn bwysig edrych ar y gwaith o weithredu'r pwerau hyn ac effeithiolrwydd y Fframwaith Cyllidol.

Canfu ein hadroddiad fod ymwybyddiaeth o ddatganoli cyllidol yn cynyddu yng Nghymru, ond bod ymwybyddiaeth o drethi datganoledig ymhlith busnesau, gweithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid eraill yn isel. Mae'r Pwyllgor yn credu bod angen i Lywodraeth Cymru a'r Senedd wneud mwy i godi ymwybyddiaeth o ddatganoli cyllidol yng Nghymru. Gan hynny, rydym wedi gwneud yr argymhelliad a ganlyn:

*Argymhelliad 3. Mae gan y Senedd rôl hefyd o ran addysgu, ymgysylltu a hysbysu'r cyhoedd yng Nghymru ynghylch datganoli cyllidol ac mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Comisiwn y Senedd ystyried sut y gall gyfrannu at hyn yn y Chweched Senedd.*

Cyfeirir at y Senedd eto yn yr adroddiad, ym mharagraff 162, lle mae'r Pwyllgor yn nodi: "Mae'r cyfrifoldeb dros godi ymwybyddiaeth o Gyfraddau Treth Incwm Cymru wedi disgyn ar Lywodraeth Cymru a CThEM yn bennaf ond mae rôl i'r Senedd o ran cynyddu gwybodaeth am Gyfraddau Treth Incwm Cymru a



**Senedd Cymru**  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 SeneddCyllid@senedd.cymru

 0300 200 6565

**Welsh Parliament**  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 SeneddFinance@senedd.wales

 0300 200 6565

datganoli cyllidol, a hoffai'r Pwyllgor weld gweithgarwch ymgysylltu ychwanegol yn y maes hwn fel y nodwyd yn argymhelliad 3.”

Fel y cofiwch, mae'r Pwyllgor wedi cymryd diddordeb yn Strategaeth Gyfathrebu'r Senedd, a byddai'n ddefnyddiol pe bai modd ymgorffori'r ystyriaethau hyn yn y strategaeth.

Mae dadl yn y Cyfarfod Llawn ar adroddiad y Pwyllgor wedi cael ei drefnu, am y tro, ar gyfer dydd Mercher 24 Mawrth. Byddwn yn ddiolchgar am ymateb i'r argymhelliad hwn erbyn dydd Mawrth 16 Mawrth, fel y gall gal ei ystyried yn y ddadl.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

